# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# 2020-2024

Cyhoeddwyd 2020

## Ein Hamcanion Cydraddoldeb 2020 - 2024

Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn cynrychioli ymrwymiad y Gwasanaeth i herio rhwystrau cydraddoldeb a chynhwysiant a chyfrannu tuag ar ein hamcanion strategol allweddol:

### Blaenoriaeth 1 – Bywyd ac Iechyd

**Amcan Cydraddoldeb 1**

Gostwng nifer y tanau mewn anheddau a'r anafusion cysylltiedig drwy strategaeth ataliol gynhwysfawr wedi'i hanelu'n arbennig at bobl sydd yn byw yng Ngogledd Cymru y gellir dangos eu bod mewn mwy o berygl oherwydd efallai eu bod yn rhannu un nodwedd benodol neu fwy.

### Blaenoriaeth 2 – Cyflogaeth

**Amcan Cydraddoldeb 2**

Drwy ein harferion cyflogaeth, ein rhaglenni a'n cynlluniau ein hunain, anelwn at gynyddu'r siawns o swydd i bobl a fyddai fel arall yn ei chael yn anodd cael mynediad cyfartal i fyd gwaith. Byddwn yn blaenoriaethu camau i gynyddu cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Ngogledd Cymru.

**Amcan Cydraddoldeb 3**

Byddwn yn bwrw ymlaen â diwylliant cynhwysol lle mae arweinwyr a staff yn arddangos eu hymrwymiad i hybu cydraddoldeb a chefnogaeth ar gyfer gweithlu teg a chynhwysol.

### Blaenoriaeth 3 - Addysg

**Amcan Cydraddoldeb 4**

Drwy raglen gynhwysfawr o addysg a chyngor wedi'u teilwra, yn cael eu darparu'n unigol ac ar y cyd, rhoi grym i bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru i barhau i leihau eu lefel eu hunain o risg rhag tân a pheryglon eraill drwy gydol y camau gwahanol yn eu bywydau.

### Blaenoriaeth 4 - Diogelwch Personol

**Amcan Cydraddoldeb 5**

Lleihau'r risg o farwolaeth neu anaf oherwydd tanau ar gyfer pobl yng Ngogledd Cymru sydd yn rhannu'r gwahanol nodweddion gwarchodedig, drwy ddarparu gwasanaethau effeithiol i atal ac amddiffyn ac ymateb tân ac achub brys.

### Blaenoriaeth 5 - Cynrychiolaeth a Llais

**Amcan Cydraddoldeb 6**

Drwy fod yn agored ac atebol am yr hyn a wnawn a beth yw'n cynlluniau, annog mwy o bobl i ymwneud â'r broses o benderfynu sut caiff gwasanaethau tân ac achub eu darparu yng Ngogledd Cymru, a cheisio cynyddu'r amrywiaeth o leisiau cynrychioliadol sy'n cyfrannu at y broses honno.

| **Blaenoriaeth 1 – Bywyd ac Iechyd** | | |
|---|---|---|
| **Amcan Cydraddoldeb 1**<br><br>Gostwng nifer y tanau mewn anheddau a'r anafusion cysylltiedig drwy strategaeth ataliol gynhwysfawr wedi'i hanelu'n arbennig at bobl sydd yn byw yng Ngogledd Cymru y gellir dangos eu bod mewn mwy o berygl oherwydd efallai eu bod yn rhannu un nodwedd benodol neu fwy. | | |
| **Rhesymau** | • Parhau i ddatblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ffactorau sydd yn cyfrannu at yr hyn sydd yn gwneud unigolion yn agored i ddioddef tân yn y cartref a defnyddio hyn i ddarparu negeseuon wedi'u targedu i gynyddu ymwybyddiaeth o'r risgiau a cheisio dylanwadu a newid ymddygiadau.<br>• Hyrwyddo ymgyrchoedd diogelwch i sicrhau bod y meysydd risg mwyaf a nodwyd yn cael eu blaenoriaethu.<br>• Deall anghenion a chynyddu diogelwch y cyhoedd sydd yn byw, gweithio neu ymweld â Gogledd Cymru. Yn benodol rheiny sydd mewn mwy o risg oherwydd eu bod yn rhannu un neu fwy nag un o'r nodweddion gwarchodedig neu oherwydd eu hamgylchiadau personol. | |
| Camau gweithredu | Adnabod grwpiau cymunedol sydd yn cynrychioli'r amrywiaeth lawn o ddinasyddion sydd yn byw yn yr ardal a wasanaethir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a datblygu'r holl sianeli cyfathrebu sydd ar gael gyda'r rheiny sydd fwyaf agored i niwed ac mewn risg, un ai'n uniongyrchol neu trwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Cynnydd 20/21 | Mae datblygu partneriaethau gydag asiantaethau partner sydd yn cyfeirio'r rheiny mewn mwy o risg yn y gymdeithas at GTAGC am Archwiliad Diogel ac Iach yn un o ddyletswyddau craidd pob Rheolwr Partneriaeth. Caiff y rheiny sydd mewn mwy o risg yn y gymdeithas eu blaenoriaeth am Archwiliad Diogel ac Iach. | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Camau gweithredu | Mae'r Gwasanaeth yn targedu asiantaethau mewn ymgais i gael mwy o atgyfeiriadau risg uchel ar gyfer Archwiliadau Diogel ac Iach. | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Cynnydd 20/21 | | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Camau gweithredu | Mae'r rheolwyr partneriaeth yn datblygu dealltwriaeth o broffil y gymuned i ddeall anghenion y cyhoedd yn well a'r modd y gall y Gwasanaeth wella eu diogelwch. | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Cynnydd 20/21 | | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Camau gweithredu | Ymgysylltu gyda'r gymuned fusnes leol a chodi ymwybyddiaeth a hyrwyddo diogelwch tân yn eu hiaith ddewisol. * | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Cynnydd 20/21 | | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |

| Blaenoriaeth 2 – Cyflogaeth | | |
|---|---|---|
| **Amcan Cydraddoldeb 2**<br><br>Drwy ein harferion cyflogaeth, ein rhaglenni a'n cynlluniau ein hunain, anelwn at gynyddu'r siawns o swydd i bobl a fyddai fel arall yn ei chael yn anodd cael mynediad cyfartal i fyd gwaith. Byddwn yn blaenoriaethu camau i gynyddu cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Ngogledd Cymru. | | |
| **Rheswm** | **Amcan Cydraddoldeb 2**<br>• Cynyddu amrywiaeth gweithluoedd yn holl sectorau'r Gwasanaeth Tân ac Achub. | |
| Camau gweithredu | Cynnal digwyddiadau gweithredu cadarnhaol i annog ceisiadau gan grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli. | Pennaeth AD |
| Cynnydd<br><br>20/21 | Mae digwyddiadau gweithredu cadarnhaol wedi cael eu gohirio oherwydd y pandemig Covid-19. Mae gwaith ar y gweill i gynllunio dyddiau/digwyddiadau recriwtio rhithiol a fydd yn ymgorffori gweithredu cadarnhaol yn ystod y pandemig. | Pennaeth AD |
| | Parhau i ddadansoddi ac adolygu'r broses recriwtio a dethol, i sicrhau ein bod ni'n cynyddu amrywiaeth ymgeiswyr. | Pennaeth AD |
| Cynnydd 20/21 | Mae gweithgareddau recriwtio cyffredinol wedi cael eu gohirio oherwydd y cyfyngiadau yn gysylltiedig â Covid-19. Mae dulliau eraill o gynnal cyfweliadau ar-lein, megis Skype a WebEx wedi cael eu hadolygu, ac mae opsiynau ar-lein wedi cael eu hystyried a'u gweithredu yn ogystal. Defnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda a Facebook live i ymgysylltu gydag ymgeiswyr posibl i gynorthwyo gweithredu cadarnhaol. | Pennaeth AD |
| Camau gweithredu | Adolygu'r data monitro cyflogaeth blynyddol ar gyfer tueddiadau a pharhad busnes | Ymgynghorydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth<br><br>Pennaeth AD |
| Cynnydd 20/21 | | Ymgynghorydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth<br><br>Pennaeth AD |
| Camau gweithredu | Sefydlu a chynnal gweithdai gyrfaoedd ar gyfer pobl o grwpiau lleiafrifol i'w hannog i ymgeisio am swyddi gwag. Cyflawni'r gwaith hwn mewn partneriaeth â chyflogwyr Sector Cyhoeddus Eraill yng Ngogledd Cymru. | Ymgynghorydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |

| | | |
|---|---|---|
| Cynnydd 20/21 | | Ymgynghorydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |
| Camau gweithredu | Meithrin cysylltiadau gyda cholegau lleol a chael cyfranogiad y GTA ar gyrsiau gwasanaeth cyhoeddus, gyda'r nod o ymgysylltu'n fwy eang ac yn fwy rheolaidd i ddarparu gwybodaeth wedi ei baratoi ymlaen llaw i'w safoni.<br><br>Meithrin cysylltiadau a mynychu digwyddiadau recriwtio gyda'r nod o ymgysylltu gyda chynulleidfa ehangach. Datblygu fformat safonol ar gyfer y math hwn o waith ymgysylltu i sicrhau bod neges gyson a chynhwysol yn cael ei throsglwyddo ar bob cyfle posibl. Adolygu'r fformat yn unol â'r adborth a gesglir ac adolygu nifer yr ymweliadau ag ysgolion/colegau/digwyddiadau a fynychir ynghyd â'u lleoliad. | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu<br><br>Pennaeth AD |
| Cynnydd 20/21 | Rhywfaint o anawsterau wrth ymgysylltu gyda cholegau lleol a mynychu digwyddiadau recriwtio oherwydd y cyfyngiadau Covid-19. Mae'n debygol y caiff digwyddiadau o'r fath eu cyflawni'n rhithiol. | Pennaeth AD |
| Camau gweithredu | Datblygu strategaeth gyfathrebu fewnol i egluro'r gwahaniaeth rhwng gweithredu cadarnhaol a gwahaniaethu cadarnhaol i atal y farn bod unigolion yn cael eu cyflogi oherwydd eu bod yn ferched/BME/LGBT. Gweithio gyda Chyrff Cynrychiadol i gefnogi gwaith y Gwasanaeth yn hyn o beth i atgyfnerthu'r neges. | Pennaeth AD |
| Cynnydd 20/21 | Mae hyn yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd gyda chyfraniad yr Ymgynghorydd AD a Chyfathrebiadau Corfforaethol. | Pennaeth AD |
| Camau gweithredu | Cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddi cydraddoldeb aelodau'r Grŵp Gwasanaeth Tân Cynhwysol (IFSG) a threfnu pecyn hyfforddi addas (fel yr argymhellir yn Arolwg Strategaethau Gwella'r IFSG - yn cynnwys rhagfarn anymwybodol, ymwybyddiaeth ddiwylliannol a hyfforddiant ar fuddion gweithlu cynhwysol). | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Cynnydd 20/21 | | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Camau gweithredu | Bydd holl aelodau IFSG GTAGC yn dod yn Hyrwyddwyr Amrywiaeth y Gwasanaeth ac arwyddo'r Addewid Hyrwyddwyr. Anogir aelodau i hyrwyddo nodweddion unigol (h.y. LGBTQ+, Cynghreiriaid LGBTQ+ ac Anabledd) ac fe'u hanogir i fynychu a hyrwyddo digwyddiadau lleol a chenedlaethol drwy gydol y flwyddyn.<br><br>Parhau i hyrwyddo gwaith Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol.<br><br>Darparu adroddiad blynyddol i'r Grŵp Gweithlu Cynhwysol ar lefel y diddordeb mewn mentrau hyfforddi a mentora, wedi ei rannu fesul nodwedd warchodedig. | Aelodau Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol<br><br>Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Cynnydd 20/21 | Oherwydd Covid-19 cafodd cyfarfod mis Mai o'r IFSG ei ganslo. Mae'r cyfarfod nesaf o'r IFSG wedi ei drefnu ar gyfer mis Hydref, mae Strategaeth Gwella IFSG 2019-2022 wedi ei roi ar waith ac mae'r cynllun wedi cael ei ddiweddaru, bydd hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis Hydref. | Aelodau Grwp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol |

| | | |
|---|---|---|
| | | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Camau gweithredu | Cynnal dadansoddiad bwlch o'r ddarpariaeth hyfforddi gyfredol i reolwyr. Edrych ar yr opsiynau sydd ar gael a nodi pa un sydd yn bodloni gofynion pob lefel reolaethol yn y sefydliad yn seiliedig ar ganlyniadau'r dadansoddiad bwlch. Trefnu i gyflwyno'r hyfforddiant a gwerthuso'r hyfforddiant hwnnw. | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Cynnydd 20/21 | | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Camau gweithredu | Dylai uwch reolwyr arwain drwy osod esiampl gadarnhaol ac fe ddylent fod â'r gallu i atgyfnerthu ymddygiadau addas, herio bwlio ac aflonyddu, delio gyda gwrthdaro a gallu cynnal sgyrsiau anodd fel rhan o'r rôl. Sicrhau ein bod ni'n darparu hyfforddiant sgiliau hyfforddi a fydd yn galluogi'n staff i reoli timau amrywiol a hyrwyddo diwylliant cynhwysol. | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Cynnydd 20/21 | | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Camau gweithredu | Deall anghenion gwahanol ein staff, ac yn benodol rheiny gyda anghenion penodol tymor hir, wrth ddylunio a gweithredu prosesau yn ymwneud â datblygu a dyrchafu yn fewnol, cynnal Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob proses. | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Cynnydd 20/21 | | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Camau gweithredu | Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r Gwerthoedd Craidd newydd ledled y Gwasanaeth. | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Cynnydd 20/21 | | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |

| | | |
|---|---|---|
| **Blaenoriaeth 2 – Cyflogaeth** | | |
| **Amcan Cydraddoldeb 3**<br><br>Byddwn yn bwrw ymlaen â diwylliant cynhwysol lle mae arweinwyr a staff yn arddangos eu hymrwymiad i hybu cydraddoldeb a chefnogaeth ar gyfer gweithlu teg a chynhwysol. | | |
| **Rheswm** | **Amcan Cydraddoldeb 3**<br>• Annog staff gweithredol benywaidd i gymryd rhan yn y broses ddyrchafu.<br>• Ymgysylltu gyda gweithwyr o grwpiau wedi eu tangynrychioli gyda'r nod o adnabod rhwystrau posibl neu gydnabyddedig yn y Gwasanaeth. | |
| Camau gweithredu | Gwella ein dealltwriaeth o'r rhwystrau a all fodoli ynghylch dyrchafu merched i rolau uwch a beth all y Gwasanaeth ei wneud i newid hyn. | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Cynnydd 20/21 | | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Camau gweithredu | Cynyddu ymwybyddiaeth ymysg staff o raglenni mentora a hyfforddi a sut i gael mynediad at gefnogaeth. | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Cynnydd 20/21 | | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Camau gweithredu | Cynnal dadansoddiad anghenion hyfforddi, yna dod o hyd i a datblygu hyfforddiant ar gyfer rheolwyr a staff allweddol ar bynciau cydraddoldeb ac amrywiaeth. | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu Ymgynghorydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |
| Cynnydd 20/21 | Mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb wedi nodi pynciau hyfforddi cydraddoldeb penodol ar gyfer aelodau'r IFSG ac uwch reolwyr. Bydd y rhaglen hyfforddi yn cael ei chynnal ar y cyd â rheolwyr i sicrhau bod sesiynau hyfforddi yn cynnwys cynulleidfa amrywiol, bydd hyn yn ychwanegu at y profiad dysgu.  Ni chafwyd cynnydd eleni oherwydd Covid-19. | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu<br><br>Ymgynghorydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |

| | | |
|---|---|---|
| Camau gweithredu | Darparu hyfforddiant sgiliau rheoli er mwyn galluogi ein staff i reoli timau amrywiol yn well a hyrwyddo diwylliant cynhwysol. | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Cynnydd 20/21 | | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Camau gweithredu | Cynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar gyfer pob cam o'r broses ddyrchafu, a chymryd camau priodol os canfyddir unrhyw broblemau. | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Cynnydd 20/21 | | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Camau gweithredu | Sicrhau bod yr holl bersonél yn ymwybodol o ofynion pob cam o'r broses ddyrchafu a'u bod yn deall pa broses y dylent fod yn rhan ohoni, yn unol â'u hamgylchiadau cyfredol.<br><br>Parhau i gasglu data ynghylch y bobl sydd yn mentro i'r broses, a'r rhai sydd yn llwyddo i gwblhau proses ddyrchafu'r Gwasanaeth, ac amlygu unrhyw broblemau posibl pan a phryd y bo hynny'n berthnasol. | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Cynnydd 20/21 | | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Camau gweithredu | Cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer pob cam o'r rhaglen hyfforddi a mentora cyfredol, a chymryd camau i i adfer unrhyw broblemau a ganfyddir. | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Cynnydd 20/21 | | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Camau gweithredu | Adolygu'r polisi safonau ymddygiad a fydd yn cael ei ymgorffori i'r polisïau a restrir isod fel ffynonellau perthnasol i'r holl staff.<br><br>• Achwyn<br>• Disgyblu<br>• Gwrth-fwlio ac Aflonyddu<br>• Urddas yn y Gwaith<br>• Cydraddoldeb<br>• Rheoli Presenoldeb | Pennaeth AD |

| | | |
|---|---|---|
| Cynnydd 20/21 | Cychwynnwyd adolygiad ond oherwydd Covid-19 bydd oedi wrth symud ymlaen gyda'r prosiect. | Pennaeth AD |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cyflog Cyfartal**<br>• Gweithio i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. | |
| Camau gweithredu | Parhau i gynnal Archwiliad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn unol â'r ddeddfwriaeth, a chynhyrchu Cynllun Gweithredu ar gyfer y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau a'i osod ar wefan y Llywodraeth. | Pennaeth AD |
| Cynnydd 20/21 | Oherwydd y pandemig Covid-19 mae'r Llywodraeth wedi gohirio'r rheidrwydd i adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau o fewn y terfynau amser ar gyfer 2020. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth wedi cwblhau dadansoddiad o'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau a chynllun gweithredu. | Pennaeth AD |
| Camau gweithredu | Parhau i adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, anabledd, oedran ac ethnigrwydd trwy Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol gan sicrhau bod hyn yn cael ei adrodd yn ôl y math o gontract, contractau parhaol a thymor sefydlog, llawn amser, rhan amser a threfniadau gweithio hyblyg eraill. | Ymgynghorydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |
| Cynnydd 20/21 | Oherwydd y pandemig Covid-19 mae'r Llywodraeth wedi gohirio'r rheidrwydd i adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau o fewn y terfynau amser ar gyfer 2020. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth wedi cwblhau dadansoddiad o'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn cynnwys y penawdau uchod. | Ymgynghorydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |
| Camau gweithredu | Mae GTAGC yn weithlu gwrywaidd yn bennaf ac mae hyn wedi ei adlewyrchu yn y chwarteli cyflog, gan fod mwy o ddynion yn y gweithlu mae'n debygol bod y gwahaniaethau mewn tâl wedi yn edrych yn waeth nac ydynt. Er mwyn sicrhau nad oes bwlch cyflog rhwng y rhywiau o gwbl byddai'n rhaid cael yr un faint o ddynion a merched ym mhob band. Cydnabyddir bod merched wedi eu tangynrychioli yn y gweithlu gweithredol o hyd fodd bynnag mae gweithredu cadarnhaol ar frig agenda GTAGC ac mae'n galonogol nodi bod y gwaith hwn wedi effeithio ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.<br><br>Mae mwyafrif y staff cynnal anweithredol yn fenywod ac maent wedi eu cyflogi dan delerau ac amodau'r Llyfr Gwyrdd, ac mae'r rolau hyn fel arfer ar raddfa gyflog is.  Mae mwyafrif y staff gwrywaidd yn staff gweithredol ac fe'i cyflogir dan delerau ac amodau'r Llyfr Llwyd. Mae cyflogau a lwfansau gwahanol ar gyfer y gwahanol delerau ac amodau ac fe all hyn egluro'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ymhellach.<br><br>Mae GTAGC yn ffyddiog bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau o ganlyniad i'r rolau y mae dynion a merched yn eu cyflawni yn y sefydliad a chyflogau'r rolau hynny oherwydd y gwahanol delerau ac amodau ac nid oherwydd rhyw. | Pennaeth AD<br>Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Cynnydd<br><br>20/21 | Oherwydd y pandemig Covid-19 mae'r Llywodraeth wedi gohirio'r rheidrwydd i adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau o fewn y terfynau amser ar gyfer 2020. Fodd bynnag, mae'r weithred hon wedi ei hymgorffori yng Nghynllun Gweithredu'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau. | Pennaeth AD<br>Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |

| Blaenoriaeth 3 – Addysg | | |
|---|---|---|
| **Amcan Cydraddoldeb 4**<br><br>Drwy raglen gynhwysfawr o addysg a chyngor wedi'u teilwra, yn cael eu darparu'n unigol ac ar y cyd, rhoi grym i bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru i barhau i leihau eu lefel eu hunain o risg rhag tân a pheryglon eraill drwy gydol y camau gwahanol yn eu bywydau. | | |
| **Rheswm** | • Cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r risgiau diogelwch trwy gynyddu nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gyflawnir, gydag o leiaf 25% yn cael eu darparu i aelwydydd sydd wedi eu cyfeirio at y Gwasanaeth gan asiantaeth arall.<br>• Cynyddu diogelwch pobl sydd yn byw, gweithio neu ymweld â Gogledd Cymru. Yn benodol rheiny sydd mewn mwy o risg oherwydd eu bod yn rhannu un neu fwy nag un o'r nodweddion gwarchodedig.<br>• Sicrhau bod staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn deall y Model Cymdeithasol o Anabledd. | |
| Camau gweithredu | Cychwyn rhaglen ymgysylltu reolaidd gyda chymunedau/ysgolion/colegau penodol, a datblygu gweithdrefn gyson ar gyfer ymgysylltiad o'r math hwn er mwyn sicrhau bod neges gyson a chynhwysol yn cael ei rhannu ar bob cyfrif. | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Cynnydd 20/21 | Dyma ddyletswydd graidd Addysgwyr y Gwasanaeth fodd bynnag mae'r gweithgarwch ar gyfer eleni wedi ei ohirio oherwydd y cyfyngiadau Covid-19. Ni wyddwn eto pryd y bydd y gweithgarwch hwn yn ailgychwyn. | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Camau gweithredu | Sicrhau bod yr holl ddefnyddiau a ddefnyddir mewn ysgolion ar gael mewn fformat addas i'w defnyddio gyda phlant ag anhenion dysgu ychwanegol, a bod ein staff wedi eu hyfforddi'n ddigonol i allu darparu yn y fformatau hyn. | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Cynnydd 20/21 | Mae cael gafael ar ddefnyddiau yn broblem ledled Cymru, mae gwaith ar y gweill i asesu'r anghenion. | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Camau gweithredu | Gwerthuso effaith ac effeithlonrwydd y negeseuon ac ymgyrchoedd diogelwch cyfredol yn enwedig ar gyfer rheiny a ystyrir eu bod mewn mwy o risg oherwydd eu bod yn rhannu un neu fwy nag un o'r nodweddion gwarchodedig. | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Cynnydd 20/21 | | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Camau gweithredu | Hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymysg y staff o'r Model Cymdeithasol o Anabledd. | Ymgynghorydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |
| Cynnydd 20/21 | | Ymgynghorydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |

**Blaenoriaeth 4 - Diogelwch Personol**

| **Amcan Cydraddoldeb**<br><br>Lleihau'r risg o farwolaeth neu anaf oherwydd tanau ar gyfer pobl yng Ngogledd Cymru sydd yn rhannu'r gwahanol nodweddion gwarchodedig, drwy ddarparu gwasanaethau effeithiol i atal ac amddiffyn ac ymateb tân ac achub brys. | | |
|---|---|---|
| **Rheswm** | • Deall anghenion a chynyddu diogelwch y bobl sydd yn byw, gweithio neu ymweld â Gogledd Cymru. Yn enwedig rheiny sydd mewn mwy o risg oherwydd eu bod yn rhannu un neu fwy nag un o'r nodweddion gwarchodedig neu oherwydd eu hamgylchiadau byw ac incwm y cartref. | |
| Camau gweithredu | Ymgorffori dealltwriaeth o'r canlynol i'r archwiliadau Diogel ac Iach:<br><br>• Troseddau Casineb/Cyfeillio<br>• Cam-drin yr henoed<br>• Cam-drin domestig<br>• Caethwasiaeth fodern | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Cynnydd 20/21 | | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Camau gweithredu | Datblygu dealltwriaeth bellach ynghylch anghenion penodol dioddefwyr trais domestig o grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli. | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Cynnydd 20/21 | | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Camau gweithredu | Adolygu'r modd yr ydym yn cefnogi busnesau lleol i leihau'r risg o dân a chydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth diogelwch tân i sicrhau bod yr holl wybodaeth yr ydym ni'n ei ddarparu yn addas ac mewn fformat hygyrch. | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Cynnydd 20/21 | | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |

| Blaenoriaeth 5 – Cynrychiolaeth a Llais | | |
|---|---|---|
| **Amcan Cydraddoldeb 6**<br><br>Drwy fod yn agored ac atebol am yr hyn a wnawn a beth yw'n cynlluniau, annog mwy o bobl i ymwneud â'r broses o benderfynu sut caiff gwasanaethau tân ac achub eu darparu yng Ngogledd Cymru, a cheisio cynyddu'r amrywiaeth o leisiau cynrychioliadol sy'n cyfrannu at y broses honno. | | |
| **Rheswm** | • Ymestyn y ffyrdd yr ydym ni'n ymgysylltu gyda chymunedau a'u hannog i gyfrannu at y modd yr ydym ni'n datblygu a darparu gwasanaethau.<br>• Cynyddu nifer y grwpiau amrywiol sy'n ymgysylltu'n rhagweithiol gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub. | |
| Camau gweithredu | Deall proffil y gymuned i wella'n dealltwriaeth o anghenion ein cwsmeriaid a'r modd y gallwn wella'r modd y maent yn cyfathrebu gyda'r Gwasanaeth a chymryd rhan. | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Cynnydd 20/21 | | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Camau gweithredu | Adnabod grwpiau cymunedol sydd yn cynrychioli'r amrywiaeth lawn o bobl sydd yn byw yn yr ardal a wasanaethir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Datblygu'r holl sianeli cyfathrebu sydd ar gael, un ai'n uniongyrchol neu trwy weithio mewn partneriaeth. | Ymgynghorydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth<br><br>Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Cynnydd 20/21 | | Ymgynghorydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth<br><br>Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Camau gweithredu | Sicrhau bod y Gwasanaeth wedi ei gynrychioli ar gymaint o fforymau a digwyddiadau lleol â phosibl er mwyn cysylltu cymaint ag y medrwn â grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli. | Ymgynghorydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth<br><br>Uwch Reolwr Diogelwch Tân |
| Cynnydd 20/21 | Gan nad ydi'r digwyddiadau cenedlaethol a lleol wedi cael eu cynnal oherwydd Covid–19 , mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru wedi cwrdd dros Teams ac mae gwaith y grŵp yn mynd rhagddo. | Ymgynghorydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth<br><br>Uwch Reolwr Diogelwch Tân |

| | | |
|---|---|---|
| Actions | Parhau i chwilio am ddulliau effeithiol o ymgysylltu drwy ein cyswllt â grwpiau a sefydliadau cymunedol. Adnabod grwpiau cymunedol eraill sydd yn cynrychioli'r amrywiaeth lawn o bobl sydd yn byw yn yr ardal a wasanaethir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Annog y grwpiau hyn i gymryd rhan pan fyddwn yn ymgynghori ar ein Cynlluniau ac Amcanion Strategol. | Uwch Reolwr Diogelwch Tân<br><br>Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol |
| Cynnydd 20/21 | Caiff ymgyrchoedd diogelwch cymunedol eu cydlynu drwy'r Grwp Llywio Ymgyrchoedd ac mae'r gwaith hwn wedi parhau drwy gydol y cyfnod Covid-19 – caiff ymgyrchoedd eu trefnu gydag adnoddau priodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod gydag amcanion clir a gwerthusiad wedi hynny. Ystyrir dulliau cyfathrebu priodol fel rhan o'r strategaethau a fabwysiadir a byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid yng Ngogledd Cymru a phartneriaid GTA Cymru pan fo hynny'n briodol. Ers Covid-19 mae mwy o bwyslais ar gyfathrebu'n rhithiol neu ar-lein ac mae disgwyl i hyn barhau wrth i ni ddod allan o'r cyfnod clo a thu hwnt a bydd GTAGC yn edrych ar y ffordd orau o ddarparu Archwiliadau Diogel ac Iach a'i raglenni addysgol yn y dyfodol gyda chefnogaeth gan y swyddogaeth cyfathrebu. Ystyrir cwrdd â'r amcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth fel rhan o'r ddarpariaeth hon. | Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol |
| Camau gweithredu | Trefnu digwyddiadau cymunedol yn cynnwys diwrnodau agored yn ein gorsafoedd tân lle gall ein staff rheng flaen ymgysylltu ac adeiladu perthynas gyda'r gymuned leol, er mwyn hyrwyddo cyfleoedd gyrfa, rhaglenni Cadetiaid a chynlluniau prentisiaethau; a chynnig cyngor diogelwch tân er mwyn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o risg. | Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol |
| Cynnydd 20/21 | Fel yr uchod - mae digwyddiadau wyneb yn wyneb wedi eu gohirio ac rydym wrthi'n edrych ar y ffordd orau o barhau â'r ddarpariaeth hon yn rhithiol neu ar-lein. | Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol |
| Camau gweithredu | Sicrhau bod y wefan a'r holl ddulliau cyfathrebu ar y safle (arolygon, ffurflenni ayb) yn hygyrch, a'n bod ni'n cynnig negeseuon diogelwch tân mewn ieithoedd a ffurfiau eraill. | Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol |
| Cynnydd 20/21 | Yn ddiweddar rydym wedi newid yr ychwanegyn hygyrchedd ar ein gwefan o 'Readspeaker' i 'Recite Me' i wella hygyrchedd e.e. mwy o ieithoedd. Mae ein gwefan wedi cael adolygiad hygyrchedd yn unol â'r gofyniad statudol sydd wedi arwain at fabwysiadu gwelliannau hygyrchedd pellach. | Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol |
| Camau gweithredu | Parhau i hyrwyddo'n hymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant trwy'r broses gaffael a thrwy ein perthynas gyda chyflenwyr a chontractwyr. | Pennaeth Cyllid |
| Cynnydd 20/21 | Mae mwyafrif caffaeliadau'r Gwasanaeth yn dilyn llwybrau caffael cyhoeddus sefydledig, trwy fframweithiau yn ogystal ag ar y cyd â'r Gwasanaethau Tân ledled Cymru, sydd gan staff caffael arbenigol i sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei hyrwyddo. | Pennaeth Cyllid |
| Camau gweithredu | Atgyfnerthu'r broses Asesu Effaith Integredig i sicrhau bod yr holl bolisïau, prosiectau a phrosesau yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig yn cynnwys y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. | Safonau Proffesiynol |
| Cynnydd 20/21 | | Safonau Proffesiynol |